Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

13.10.25

**Parthed: Cylchlythyr**

Annwyl Rieni,

**Gwasanaeth Diolchgarwch -** Ar Ddydd Mawrth yr 21ain, bydd dysgwyr yr ysgol yn mynd i Gapel Rehoboth ar stryd fawr Prestatyn am wasanaeth Diolchgarwch (plant yn unig). Ein gŵr gwadd ni yw'r Parchedig Brian Huw Jones a llawer o ddiolch iddo am ei amser i sgwrsio gyda'r dysgwyr. Bydd dysgwyr Blwyddyn 1 a 2 yn mynd i Gapel Rehoboth yn y bore ac yna Adran Iau (Bl.3, 4, 5 a 6) ar gyfer gwasanaeth yn y prynhawn.

**Cynnyrch Diolchgarwch -** Yn draddodiadol, rydym yn casglu cynnyrch bwyd, megis tuniau ffrwythau, pacedi bwyd sych, llysiau ac ati, ac yna eu rhannu gyda'r henoed neu'r banc bwyd lleol. Eleni, byddwn yn rhannu'r cynnyrch i'n banc bwyd lleol. Os oes gennych unrhyw beth i'w gyfrannu, a fyddwch mor garedig â'u cyfrannu erbyn Dydd Mercher y 22ain o Hydref os gwelwch yn dda. Llawer o ddiolch i chi am eich cefnogaeth gyda hyn.

**Noson Agored-** Llawer o ddiolch i bawb a ddoth i noson agored i rieni wythnos ddiwethaf. Braf oedd cael gweld yr ysgol yn llawn. Bydd noson rhieni nesaf gyda'r athro/awes yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd er mwyn i chi gael trafod mewn mwy o fanylder eich plentyn.

**Presenoldeb -** Mae presenoldeb yn yr ysgol yn allweddol i helpu'r dysgwyr i gael y cychwyn gorau mewn bywyd a rhoi'r cyfle gorau iddynt wneud y mwyaf o'u cyfleoedd dysgu. Mae tystiolaeth glir sy'n cysylltu cyflawniadau addysgol a bod yn bresennol yn yr ysgol. Mae Ysgol y Llys yn benderfynol o ddarparu'r addysg orau i'r dysgwyr rydym ni'n eu gwasanaethu. **O Fedi'r 1af hyd at Hydref y 10fed, presenoldeb yr ysgol ydy 92.6%, gydag absenoldeb di-awdurdodedig yn 3.6% (data o ddosbarth Derbyn i Fl.6). Ein targed ysgol ni yw 95%**

**Macmillan –** Llawer o ddiolch i bawb am gefnogi ein bore goffi Macmillan yn ddiweddar. Rydym yn hynod o ddiolchgar am eich cefnogaeth tuag at yr elusen. Codwyd £394.45 tuag at yr elusen. Diolch o galon!

**Scholastics** - Llawer o ddiolch i chi am ein cefnogi ni gydag ein ffair lyfrau Scholastics yn ddiweddar. Cyfle arbennig i chi gael prynu llyfrau addas ar gyfer eich plentyn. Diolch i Mrs Arfona Williams am ei drefnu.

**Llongyfarchiadau!** – Hoffwn longyfarch tîm pêl-droed yr Urdd am orffen yn ail yn y gystadleuaeth yr Urdd yn ddiweddar. Bydd un tîm yn mynd i gystadlu nesaf yn Aberystwyth yn erbyn ysgolion ar draws Cymru. Pob hwyl iddynt. Llawer o ddiolch i staff a'r rhieni sydd wedi eu cefnogi nhw yn ystod y daith hyd yn hyn.

**Ffurflenni Mynediad-** Cofiwch i gwblhau eich ffurflenni os oes gennych blant yn yr oedrannau canlynol. Dilynwch y ddolen ganlynol: Derbyn i ysgol | Cyngor Sir Ddinbych
**Ceisiadau ar gyfer ysgolion Uwchradd (Bl.7) ar agor o 01/09/2025 hyd at 03/11/2025 – Cadarnhad erbyn Mawrth 2il, 2026.**
**Ceisiadau ar gyfer llefydd Dosbarth Derbyn ar agor o 22/09/2025 hyd at 17/11/2025 – Cadarnhad erbyn Ebrill 16eg, 2026.**
**Ceisiadau ar gyfer llefydd Meithrin ar agor 22/09/2025 hyd at 17/02/2026 – Cadarnhad erbyn Mai 5ed, 2026.**

Cofion gorau,

*Mr Rhys Griffith*

Mr Rhys Griffith a Staff Ysgol y Llys
Pennaeth
Ysgol y Llys



YSGOL Y LLYS
Lles Gwerin Llys Agored

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

*13.10.2025*

***Subject: Newsletter***

*Dear Parents,*

***Thanksgiving Service*** *– On Tuesday, the 21st, the learners will be going to Rehoboth Chapel on Prestatyn High Street for a Thanksgiving Service (learners only). Our guest speaker will be the Reverend Brian Huw Jones, and we are very grateful to him for his time to speak with the learners. Year 1 and Year 2 learners will attend the service in the morning, and the Junior Department (Years 3, 4, 5, and 6) in the afternoon.*

***Thanksgiving Produce*** *– Traditionally, we collect food items such as tins of fruit, packets of dry food, vegetables, etc., and then distribute them to the elderly or the local food bank. This year, we will be donating the produce to our local food bank. If you have anything to contribute, please kindly bring it by Wednesday, the 22nd of October. Thank you very much for your support with this.*

***Open Evening*** *– A big thank you to everyone who attended the open evening for parents last week. It was lovely to see the school full. The next parents' evening with the teachers will be held in November so that you can discuss your child's progress in more detail.*

***Attendance*** *– Regular attendance at school is key in helping learners to have the best start in life and giving them the best chance to make the most of their learning opportunities. There is clear evidence linking educational achievements with being present at school. Ysgol y Llys is committed to providing the best education for the learners we serve.* ***From the 1st of September to the 10th of October, the school's attendance rate is 92.6%, with unauthorised absences at 3.6% (data from Reception class to Year 6). Our whole school target is 95%.***

***Macmillan*** *– A big thank you to everyone for supporting our recent Macmillan coffee morning. We are extremely grateful for your support of the charity. A total of £394.45 was raised for the charity. Heartfelt thanks!*

***Scholastics*** *– Thank you so much for supporting our recent Scholastics book fair. It was a special opportunity for you to buy books suitable for your child. Thanks to Mrs. Arfona Williams for organising it.*

***Congratulations!*** *– I would like to congratulate the Urdd football team for finishing second in the recent Urdd competition. One team will be going to compete next in Aberystwyth against schools from across Wales. Best of luck to them! Many thanks to the staff and parents who have supported them throughout the journey so far.*

***Admission to Ysgol y Llys-*** *The closing dates for the online forms for admission to various age groups for the 2026-27 academic years are closing soon. Please follow this link for further information* School admissions | Denbighshire County Council

***Applications open from 01/09/2025 until 03/11/2025 for Secondary School Places (Year 7) - Notification of places on March 2nd, 2025.***
***Applications open from 22/09/2025 until 17/11/2025 for Reception Class Places – Notification of places on 16th of April, 2026.***
***Applications open from 22/09/2025 until 16/02/2026 for Nursery Class Places – Notifications of places on the 5th of May, 2026.***

*Kind regards,*

*Mr Rhys Griffith*

*Mr Rhys Griffith and Ysgol y Llys Staff*
*Head Teacher*
*Ysgol y Llys*